# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

**RHAN 2**

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU A'I PHERTHYNAS Â'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

**PENNOD 2**

Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

*Ffioedd*

**23 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd**

(1) Rhaid talu ffioedd a symiau eraill y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cael, i SAC.

(2) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas ag archwilio cyfrifon neu ddatganiad o gyfrifon person gan yr Archwilydd Cyffredinol.

(3) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol—

(a) ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymchwiliadau penodol i ddarbodaeth etc person wrth ddefnyddio adnoddau);

(b) ymchwiliad a gynhelir ar gais person o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (ymchwiliadau i ddefnydd o adnoddau) neu astudiaeth a wneir ar gais person o dan adran 145A o'r Ddeddf honno (astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth etc mewn gwasanaethau);

(c) ymchwiliad neu astudiaeth a gynhelir neu a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gais person o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

(d) unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan adran 19.

(4) Rhaid i SAC godi ffi mewn perthynas â'r canlynol—

(a) darparu gwasanaethau i gorff o dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ardystio hawliadau, ffurflenni etc ar gais corff);

(b) astudiaeth ar gais corff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

(5) O ran ffioedd a godir o dan yr adran hon—

(a) ni chaniateir iddynt gael eu codi ond yn unol â chynllun a baratoir gan SAC o dan adran 24;

(b) ni chaiff y ffi fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi;

(c) maent yn daladwy i SAC gan y person y mae'r swyddogaeth a arferir yn ymwneud ag ef.

## 24 Cynllun ar gyfer codi ffioedd

(1) Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol—

(a) rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi odanynt;

(b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;

(c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;

(d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill—

(a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a

(b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun—

(a) rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,

(b) caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac

(c) rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan—

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),

i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.